GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Tîm Diogelu Iechyd
Health Protection Team
Ffôn/Tel: 0300 00 300 32
E-bost/Email: aware@wales.nhs.uk

Gwefan: www.iechydcyhoedduscymru.org
Web: www.phw.nhs.wales

| | |
|---|---|
| **Ref:** | E81817 |
| **Date:** | **19/11/25** |
| | |
| To: Parent/Guardian of children at YSGOL BRO ALUN | |

Dear Parent/Guardian,

We have been informed that an increasing number of children who attend the school have been diagnosed with Scarlet Fever recently.

Although Scarlet Fever is usually a mild illness, it should be treated with antibiotics to minimise the risk of complications and reduce the spread to others. **If you or your child display symptoms of scarlet fever it is important to contact your GP or NHS 111 for advice and to receive a diagnosis. Stay away from nursery, school or work until you have been able to contact your GP / 111. If you are prescribed antibiotics for scarlet fever you should not return to nursery , school or work for at least 24 hours after starting them in order to reduce the chance of spreading the infection.**

The **symptoms** of Scarlet Fever include a sore throat, headache, fever, nausea and vomiting. This is followed by a fine red rash, which typically first appears on the chest and stomach, rapidly spreading to other parts of the body. On more darkly pigmented skin, the scarlet rash may be harder to spot, but it should feel like 'sandpaper'. The face can be flushed red but pale around the mouth.

If you think you, or your child, have Scarlet Fever:

- contact your GP or NHS 111 as soon as possible.
- If a doctor prescribes antibiotics because of a Scarlet Fever diagnosis, ensure that you/your child takes the full course.
- report the illness to the school.

Those living in the same household or attending school with a confirmed case of Scarlet Fever (contacts of the case) can continue to attend school/nursery and all usual activities as normal as long as they are well and do not have any symptoms. Antibiotics are not recommended for contacts who do not have symptoms.

**Possible complications:** Children who have recently had chickenpox or influenza can develop a more serious infection during an outbreak of Scarlet Fever and so parents should remain vigilant for symptoms such as a persistent high fever, cellulitis (skin infection) and arthritis (joint pain and swelling). If you have concerns due to the appearance of such symptoms, please seek medical assistance immediately.

**Please inform the school/nursery if your child develops chickenpox, influenza or is diagnosed with Scarlet Fever.**

**If your child has an underlying condition which affects their immune system, you should contact your usual hospital doctor or GP to discuss whether any additional measures are needed.**

You can find more information on Scarlet Fever on the NHS website: NHS 111 Wales - Health A-Z : Scarlet Fever.

Yours sincerely

Sania Siddiq

**The Health Protection Team**

**Swyddfa'r De a'r Dwyrain**
4ydd Llawr
2 Capital Quarter
Stryd Tyndal
Caerdydd CF10 4BZ

**Swyddfa'r Canolbarth a'r Gorllewin**
Tŷ Matrix
Rhodfa'r Gogledd
Parc Anturiaeth Abertawe
Abertawe SA6 8DP

**Swyddfa'r Gogledd**
Preswylfa
Heol yr Hendy
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 1PZ

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Tîm Diogelu Iechyd Health Protection Team
Ffôn/Tel: 0300 00 300 32
E-bost/Email: aware@wales.nhs.uk

Gwefan: www.iechydcyhoedduscymru.org
Web: www.phw.nhs.wales

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | E81817 |
| **Dyddiad** | 19/11/25 |
| | |
| At: Riant/Warcheidwad plant yn YSGOL BRO ALUN | |

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Rydym wedi cael gwybod bod nifer cynyddol o blant sy’n mynychu’r ysgol/feithrinfa wedi cael diagnosis o’r Dwymyn Goch yn ddiweddar.

Er bod y Dwymyn Goch yn salwch ysgafn fel arfer, dylid ei drin â gwrthfiotigau i leihau'r risg o gymhlethdodau ac i leihau lledaeniad y salwch i eraill. **Os ydych chi neu'ch plentyn yn dangos symptomau o’r dwymyn goch, mae'n bwysig cysylltu â'ch meddyg teulu neu GIG 111 am gyngor ac i gael diagnosis. Cadwch i ffwrdd o’r feithrinfa, yr ysgol neu’r gwaith nes eich bod wedi gallu cysylltu â’ch Meddyg Teulu / 111. Os rhoddir gwrthfiotigau ar bresgripsiwn i chi ar gyfer y dwymyn goch, ni ddylech ddychwelyd i'r feithrinfa, yr ysgol na'r gwaith am o leiaf 24 awr ar ôl dechrau eu cymryd er mwyn lleihau'r siawns o ledaenu'r haint.**

Mae **symptomau’r** Dwymyn Goch yn cynnwys dolur gwddf, pen tost, twymyn, cyfog a chwydu. Mae brech goch fân yn dilyn hyn sydd fel rheol yn ymddangos gyntaf ar y frest a'r stumog, gan ymledu'n gyflym i rannau eraill o'r corff. Ar groen sydd â lliw tywyllach, gall fod yn anoddach gweld y frech goch, ond dylai deimlo fel 'papur gwydrog'. Gall yr wyneb fod yn goch ond yn welw o amgylch y geg.

Os ydych chi'n credu fod gennych chi, neu'ch plentyn, y Dwymyn Goch:

- cysylltwch â'ch Meddyg Teulu neu GIG 111 cyn gynted â phosibl.
- os bydd meddyg yn rhoi gwrthfiotigau ar bresgripsiwn oherwydd diagnosis o'r Dwymyn Goch, sicrhewch eich bod chi / fod eich plentyn yn cymryd y cwrs llawn.
- rhowch wybod i’r ysgol am y salwch.

Caiff y rhai sy’n byw yn yr un aelwyd neu sy’n mynd i’r un ysgol/feithrinfa â rhywun sydd â’r Dwymyn Goch barhau i fynychu’r ysgol/feithrinfa a chymryd rhan yn eu holl weithgareddau arferol cyhyd â’u bod yn iach ac nad oes ganddynt unrhyw symptomau. Nid yw gwrthfiotigau yn cael eu hargymell ar gyfer y rhai sydd wedi dod i gysylltiad â’r Dwymyn Goch os nad oes ganddynt symptomau.

**Cymhlethdodau posibl:** Gall plant sydd wedi cael brech yr ieir neu’r ffliw yn ddiweddar ddatblygu haint mwy difrifol yn ystod achos o’r Dwymyn Goch. Felly, dylai rhieni barhau i fod yn wyliadwrus o symptomau fel tymheredd uchel parhaus, llid yr isgroen (haint ar

y croen) ac arthritis (poen a chwyddo yn y cymalau). Os oes gennych bryderon oherwydd ymddangosiad symptomau o'r fath, ceisiwch gymorth meddygol ar unwaith.



**Rhowch wybod i'r ysgol/feithrinfa os yw'ch plentyn yn datblygu brech yr ieir neu'n cael diagnosis o'r Dwymyn Goch.**

**Os oes gan eich plentyn gyflwr iechyd sy'n bodoli eisoes sy'n effeithio ar ei system imiwnedd, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu neu'ch meddyg ysbyty arferol i drafod a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol.**

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Dwymyn Goch ar wefan y GIG: GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Y Dwymyn Goch.

Yr eiddoch yn gywir

Sania Siddiq

**Y Tîm Diogelu Iechyd**

**Swyddfa'r De a'r Dwyrain**
4ydd Llawr
2 Capital Quarter
Stryd Tyndal
Caerdydd CF10 4BZ

**Swyddfa'r Canolbarth a'r Gorllewin**
Tŷ Matrix
Rhodfa'r Gogledd
Parc Anturiaeth Abertawe
Abertawe SA6 8DP

**Swyddfa'r Gogledd**
Preswylfa
Heol yr Hendy
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 1PZ

**Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, ac ni fydd hynny'n arwain at oedi.**
**You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without this causing delay.**